




De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales



YMGYSYLLTU Â CHYMUNEDAU

Trosolwg o'n
gweithgarwch 2020-21





Cynnwys

Eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu	3
Ein dull ymgysylltu mewn ymateb i COVID-19.....	3
Eich Llais, Eich Dychymyg.....	4
Sgyrsiau Cymunedol Rhithwir.....	5
Sgwrs Lleisiau Ifanc.....	7
Ymgynghoriad Ein Heddlu, Ein Cymuned.....	9
Casgliad.....	11



Eich Comisiynydd Heddlu a Throeddu

Mae eich Comisiynydd, Alun Michael, yn gynrychiolydd etholedig sy'n gyfrifol am roi llais i'r cyhoedd ym maes plismona yn Ne Cymru. Mae cyfarfod â phobl, siarad â phobl a gwranddo i gyd yn bwysig er mwyn helpu'r Comisiynydd i ddeall materion yn ymwneud â phlismona a diogelwch cymunedol sydd o bwys i gymunedau ledled De Cymru. Drwy glywed yn uniongyrchol gan bobl yn yr ardal, gall y Comisiynydd ddwyn Heddlu De Cymru i gyfrif yn effeithiol ar ran y cyhoedd, gan sicrhau bod yr heddlu'n darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ffordd y mae'r Comisiynydd wedi ymgysylltu â chymunedau drwy gydol blwyddyn ariannol 2020-21 ac yn rhoi trosolwg o'r materion a godwyd a'r pynciau a drafodwyd.

Ein dull ymgysylltu mewn ymateb i COVID-19

Ymhlith yr holl heriau o ganlyniad i COVID-19, cafodd cadw pellter cymdeithasol effaith enfawr ar allu'r Comisiynydd a'i dîm i ymgysylltu â chymunedau yn ystod y pandemig. Gan ei bod yn anodd rhagweld pryd y byddai modd i ni ailddechrau ymgysylltu wyneb yn wyneb, roeddem yn credu ei bod yn bwysig i ni addasu ein dulliau ymgysylltu er mwyn parhau i ymgysylltu â chymunedau yn ystod y cyfnod hwn.

Gwnaethom ddatblygu 'Cynllun Ymgysylltu Dros Dro ar gyfer COVID-19', a oedd yn cynnwys cynigion ymgysylltu byrdymor gyda'r nod o oresgyn y cyfyngiadau ar ein gweithgareddau wyneb yn wyneb. Er ei bod yn bwysig i ni roi'r gorau i unrhyw ymgysylltu corfforol am y tro er mwyn atal y Coronafeirws rhag lledaenu, roeddem hefyd yn cydnabod y byddai gwneud ein holl waith ymgysylltu ar-lein yn atal nifer o bobl nad oeddent yn hyddysg mewn cyfrifiadura, neu nad oedd ganddynt ddyfais i'w defnyddio, rhag gallu ymgysylltu â ni. I geisio mynd i'r afael â hyn, gwnaethom ymdrechu i ddefnyddio cynifer o lwyfannau â phosibl, megis gorsafoedd radio a chyfweiliadau yn y cyfryngau, er mwyn ymestyn cyrhaeddiad ein negeseuon. Gwnaethom hefyd gydweithio â sefydliadau lleol er mwyn meithrin dealltwriaeth well o ddulliau cyfathrebu amgen y gallem fod wedi'u defnyddio yn ystod y cyfnod hwn.



Eich Llais, Eich Dychymyg

Wrth i gyfyngiadau symud ddod i rym drwy'r wlad ym mis Mawrth 2020, roeddem yn wynebu cyfnod digynsail ac ansicr yn sgil pandemig COVID-19. Y neges graidd gan y Llywodraeth oedd ei bod yn rhaid i ni 'aros gartref' a chadw pellter cymdeithasol er mwyn atal y Coronafeirws rhag lledaenu.

Ategodd y Comisiynydd y neges hon drwy gyfathrebu'n rheolaidd â'r cyhoedd, gan annog cymunedau i gydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Er mwyn grymuso cymunedau i gydweithio â ni i ddatblygu a rhannu negeseuon pwysig am y Coronafeirws, lansiodd y Comisiynydd fenter '*Eich Llais, Eich Dychymyg*' ym mis Mai 2020. Nod y fenter hon oedd annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio eu dychymyg a'u doniau i feddwl am negeseuon diogelwch roeddent am eu rhannu â chymunedau drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Gwnaethom hysbysebu'r fenter hon drwy ein llwyfannau ar-lein, yn ogystal â'i rhannu â'n partneriaid a'i hyrwyddo drwy orsafoedd radio lleol.

Roedd hi'n bleser gweld yr amrywiaeth o gynigion a gawsom gan bobl ifanc, a ddefnyddiodd eu dychymyg i fynegi eu hunain gan ddefnyddio dulliau creadigol a negeseuon grymus. Roedd y negeseuon yn ein hatgoffa ni i gyd am bwysigrwydd cadw'n ddiogel, cydymffurfio â'r cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol a chydabod ymdrechion ein 'gweithwyr allweddol'. Roeddem yn ddiolchgar am yr ymdrech a wnaed ac roeddem yn falch iawn o allu cynrychioli lleisiau plant a phobl ifanc, a'n helpodd ni i rannu negeseuon pwysig yn ystod cyfnod tyngedfennol. Mae enghreifftiau o rai o'r cynigion anhygoel a gawsom ac a rannwyd ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol i'w gweld isod:





Sgyrsiau Cymunedol

Fel arfer, bydd y Comisiynydd yn mynd ar gyfres o deithiau 'ar grwydr yn y gymuned' drwy gydol y flwyddyn, yn ymweld â chymunedau ledled ardal Heddlu De Cymru ac yn siarad â nhw am bryderon lleol ynglŷn â throsteddu a diogelwch cymunedol. Fodd bynnag, mewn ymateb i gyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol COVID-19, gwnaethom addasu ein dulliau drwy gynnal 'sgyrsiau cymunedol rhithwir' yn hytrach na'r teithiau cerdded. Roedd hyn yn fodd i ni sicrhau bod deialog rhwng y Comisiynydd a'r cyhoedd yn parhau yn ystod y pandemig.

Rhwng mis Medi 2020 a mis Mawrth 2021, cynhaliwyd sgyrsiau cymunedol rhithwir gyda thrigolion Merthyr Tudful,

Abertawe, Bro Morgannwg, Castell-nedd Port Talbot a Chaerdydd. Siaradodd y Comisiynydd â mwy na 50 o drigolion yn ystod y cyfnod hwn ar lwyfan digidol 'Zoom', ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir gan Heddlu De Cymru, yn ogystal â materion yn ymwneud â throsteddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n effeithio ar yr ardal leol.



Mae enghreifftiau o'r materion a godwyd gan drigolion yn ein Sgyrsiau Cymunedol i'w gweld isod:

“Pa ragofalon y mae'r heddlu'n eu rhoi ar waith er mwyn diogelu pobl sy'n cael eu gwarchod?”

Cafwyd trafodaethau am y ffordd roedd yr heddlu'n ystyried iechyd unigolion a oedd yn cael eu gwarchod wrth ymateb i'r cyhoedd a rhyngweithio â nhw.



“Nid yw trigolion yn cael cyswllt dilynol gan yr heddlu”

Rhannwyd enghreifftiau lle nad oedd dioddefwyr a oedd wedi cysylltu â Heddlu De Cymru wedi cael unrhyw gyswllt dilynol gan swyddogion yn dilyn eu cyswllt cychwynnol.



“Nid yw rhai pobl yn rhoi gwybod am droseddau drwy 101 am nad ydynt yn credu ei fod yn wasanaeth dibynadwy”

Soniodd rhai trigolion fod pobl wedi rhoi'r gorau i roi gwybod am droseddau drwy 101 gan nad oeddent wedi gallu cysylltu yn y gorffennol. Roedd teimlad hefyd ei bod yn ymddangos bod diffyg ymwybyddiaeth o'r opsiwn i roi gwybod am droseddau ar-lein.



“Mae cyffuriau a chamfanteisio gan gangiau o ardaloedd eraill yn broblem fawr”

Trafododd rhai trigolion eu pryderon am broblem gynyddol cyffuriau a chamddefnyddio sylweddau. Nodwyd bod y cynnydd diweddar mewn anhrefn gyhoeddus, yn enwedig digwyddiadau'n cynnwys pobl iau, yn peri pryder hefyd.



“Mae'n bwysig bod yr heddlu'n cydnabod ac yn deall effaith COVID-19 ar iechyd meddwl pobl”

Cafwyd trafodaethau am effaith y cyfyngiadau symud ar iechyd meddwl pobl. Teimlai'r trigolion ei bod yn bwysig i'r heddlu fod yn dosturiol wrth ymateb i bobl a oedd yn agored i niwed ac mewn argyfwng.



“Sut rydych yn helpu i atal pobl ifanc rhag ymddwyn yn wrthgymdeithasol?”

Holodd rhai trigolion pa waith oedd yn cael ei wneud yn y gymuned er mwyn helpu i atal pobl ifanc rhag ymddwyn yn wrthgymdeithasol.



Mae'r Comisiynydd yn cymryd yr holl faterion a godwyd yn ein Sgyrsiau Cymunedol o ddifrif. Yn seiliedig ar natur y materion a drafodir, mae'r Comisiynydd yn siarad â thimau plismona lleol ac asiantaethau partner i fynd i'r afael â'r pryderon a gaiff eu codi yn ein cyfarfodydd mewn ffordd briodol. Mae'r Comisiynydd hefyd yn monitro pryderon sy'n cael eu codi droeon gan y cyhoedd ac unrhyw dueddiadau er mwyn eu bwydo i mewn i'w raglen craffu ac atebolrwydd. Mae hyn yn galluogi'r Comisiynydd a'i dîm i uwchgyfeirio pryderon ynglŷn ag arferion plismona a thueddiadau troseddu at arweinwyr Heddlu De Cymru.




Sgwrs Lleisiau Ifanc

Yn ystod hydref 2020, sefydlodd y Comisiynydd fforwm 'Sgwrs Lleisiau Ifanc'. Nod Sgwrs Lleisiau Ifanc yw cynnig fforwm rheolaidd i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed roi adborth i'r Comisiynydd a Heddlu De Cymru a rhannu eu profiadau â nhw. Drwy glywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc am y materion a'r pryderon sy'n effeithio arnynt, gall y Comisiynydd hyrwyddo dealltwriaeth well o anghenion a realiti pobl ifanc yn Ne Cymru.

Ym mis Rhagfyr 2020, gwnaethom lansio ein fforwm Sgwrs Lleisiau Ifanc gan ddefnyddio llwyfan digidol 'Zoom'. Roedd dros

40 o bobl ifanc yn bresennol yn y digwyddiad, yn amrywio o 12 i 21 oed. Roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r Dirprwy Brif Gwnstabl ar y panel, ac roeddent yn annog pobl ifanc i gyflwyno eu cwestiynau a'u hadborth iddynt.



Ceir trosolwg o rywfaint o'r adborth a'r ymholiadau a gafwyd gan bobl ifanc isod:



Dywedodd nifer o bobl ifanc wrthym eu bod yn teimlo y dylai mewnbwn yr heddlu mewn ysgolion a chlybiau ieuencid ddigwydd yn fwy rheolaidd. Roeddent o'r farn bod mewnbwn yr heddlu ar faterion fel troseddau'n ymwneud â chyllyll yn werthfawr iawn ac roeddent yn gobeithio y byddai ymgysylltu â phobl ifanc yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r heddlu.



Codwyd pryderon ynglŷn â'r ffordd roedd yr heddlu'n ceisio atal pobl ifanc rhag cario cyllyll a ph'un a oedd yr heddlu o'r farn bod ganddynt reolaeth dros y gwaith o fynd i'r afael â throseddau'n ymwneud â chyllyll a'u hatal.



Siaradodd pobl ifanc â ni am eu pryderon ynglŷn â nifer y bobl o leiafrifoedd ethnig sy'n cael eu stopio a'u chwilio gan yr heddlu'n rheolaidd, a gwnaethant ofyn sut roedd yr heddlu'n bwriadu mynd i'r afael â rhagfarn ddiarwybod.



Cododd nifer o bobl ifanc fater cyfyngiadau COVID-19, ac roeddent yn awyddus i ddeall sut roedd yr heddlu'n bwriadu cosbi'r bobl nad oeddent yn cydymffurfio â nhw.



Codwyd pryder ynglŷn â hwtian, chwibanu ac ymddygiadau eraill sy'n codi ofn ar lawer o ferched a menywod ifanc ac yn gwneud iddynt deimlo'n anniogel pan fyddant allan yn rhedeg. Gofynnwyd beth, o ddifrif, y gellid ei wneud i fynd i'r afael â'r ymddygiad hwn.

Yn dilyn lansio fforwm Sgwrs Lleisiau Ifanc, penderfynwyd y byddai sgysiau lleol â phobl ifanc yn cael eu trefnu drwy gydol y flwyddyn er mwyn trafod y materion allweddol sy'n peri pryder i bobl ifanc ymhellach. Felly, caiff pobl ifanc eu gwahodd i gyflwyno'r materion allweddol a drafodwyd mewn sgysiau lleol i'r Comisiynydd a Heddlu De Cymru yng nghyfarfodydd ein fforwm Sgwrs Lleisiau Ifanc yn 2021 a thu hwnt. Bydd y Comisiynydd a Heddlu De Cymru yn ystyried y cyngor, yr heriau a'r wybodaeth a rennir gan bobl ifanc yn ofalus, a bydd hyn yn gyfle i gydweithio er mwyn datblygu atebion.



Ein Heddlu Ein Cymuned

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau sy'n gyfrifol am ddyrannu cyllideb yr heddlu a phennu lefel praesept yr heddlu yn Ne Cymru. Yn ystod hydref 2020, lansiodd y Comisiynydd arolwg ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn galluogi cymunedau i rannu eu barn ar flaenoriaethau plismona, gan gynnwys faint yn ychwanegol y byddent yn fodlon ei dalu tuag at blismona fel rhan o'u treth gyngor (praesept yr heddlu) ar gyfer 2021/22.

Dechreuodd yr ymgynghoriad ddydd Mawrth 10 Tachwedd 2020, gan bara am bedair wythnos. Er mwyn sicrhau bod yr arolwg yn hygyrch, cafodd ei greu yn ddigidol gan ddefnyddio Smart Survey gyda dolenni ar wahân ar gyfer fersiynau Cymraeg, Saesneg a Hawdd ei Darllen. Roedd

fersiynau copi papur hefyd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gais.

Oherwydd COVID-19, ni fu modd i ni ymgysylltu â'r cyhoedd wyneb yn wyneb, fel y byddem wedi'i wneud fel arfer yn ystod y cyfnod ymgynghori. Felly, roedd yn hanfodol ein bod yn ymgysylltu â sefydliadau partner a grwpiau cymunedol er mwyn annog cynifer â phosibl o grwpiau amrywiol o bobl i gymryd rhan.

Cwblhawyd yr arolwg gan 1,001 o drigolion De Cymru. Dangosodd canlyniadau'r arolwg fod 69% o'r trigolion yn barod i gyfrannu mwy bob mis tuag at eu treth gyngor er mwyn cefnogi plismona yn Ne Cymru, a dywedodd bron hanner yr ymatebwyr (46.5%) y byddent yn fodlon talu £2 ychwanegol y mis.

Roedd yr arolwg hefyd yn gofyn i drigolion ddweud wrthym am faterion yn ymwneud â throseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol roeddent yn pryderu amdanynt fwyaf yn eu cymuned. Roedd 'Cyffuriau a Chamddefnyddio Sylweddau' yn un o dri phrif bryder hanner yr ymatebwyr (50%) ar gyfer eu hardal. Roedd 'Goryrru a Gyrru Peryglus' (35%) a 'Bwrgleriaeth a Lladrata' (34%) ymhlith y tri uchaf gan fwy na chwarter y trigolion.

Mae 5 prif bryder y gymuned i'w gweld isod:

1 – Cyffuriau a Chamddefnyddio Sylweddau


2 - Goryrru a Gyrru Peryglus

3 - Bwrgleriaeth a Lladrata

4 - Troseddau ac Anhrefn sy'n Gysylltiedig ag Alcohol

5 - Troseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n Gysylltiedig ag Iechyd Meddwl

Er mwyn helpu'r Comisiynydd i ddeall beth y dylai'r heddlu fod yn ei flaenoriaethu ym marn y trigolion, gofynnwyd iddynt ddewis hyd at dair blaenoriaeth sefydliadol o restr a bennwyd ymlaen llaw. Dewisodd dros hanner yr ymatebwyr (60%) 'gwella'r ymateb plismona i ddioddefwyr troseddau, gan gynnwys rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn brydlon' fel prif flaenoriaeth plismona. Mae'r tair prif flaenoriaeth a ddewiswyd gan y cyfranogwyr i'w gweld isod:



Gwnaeth y wybodaeth a gasglwyd a'r adborth agored a gonest a gafwyd drwy ymgynghoriad '*Ein Heddlu, Ein Cymuned*' helpu'r Comisiynydd i wneud penderfyniad wrth osod lefel y praesept ar gyfer 2021/22. Gwnaeth yr adborth a gasglwyd mewn perthynas â blaenoriaethau plismona lleol a'r gwasanaeth a ddarperir gan Heddlu De Cymru hefyd helpu i lywio'r gwaith o adnewyddu Cynllun Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a chaiff ei ystyried fel rhan o raglen graffu a phortffolio polisïau a phrosiectau'r Comisiynydd ar gyfer 2021/22.



Casgliad

Mewn blwyddyn na welwyd ei thebyg o'r blaen, mae ymgysylltu â'n cymunedau wedi bod yn bwysicach nag erioed. Er bod y pandemig wedi peri llawer o heriau i ni, mae hefyd wedi cynnig cyfleoedd i feddwl yn wahanol am y ffordd rydym yn cyfathrebu ac yn rhyngweithio â'n gilydd.

Mae'r ffordd rydym wedi ymgysylltu â'r cyhoedd wedi galluogi'r Comisiynydd i sicrhau ei fod yn ymwybodol o effaith y pandemig ar gymunedau, newidiadau mewn tueddiadau troseddau, a chanfyddiadau pobl o'r ffordd y mae'r heddlu wedi gorfodi rheoliadau'r Coronafeirws. Mae siarad â chymunedau wedi galluogi'r Comisiynydd i atgyfnerthu ei ddealltwriaeth o'r materion y mae angen

mynd i'r afael â nhw, enghreifftiau o waith da, a ffyrdd y gall ein harferion adlewyrchu'r hyn y mae ein cymunedau'n dweud wrthym sydd ei angen arnynt yn well.

Bydd y Comisiynydd a'i dîm yn parhau i ystyried y dulliau gorau i'w defnyddio i ymgysylltu â chymunedau, er mwyn sicrhau y gallwn gynnig amrywiaeth eang o weithgareddau hygyrch i'r cyhoedd gymryd rhan ynddynt.

Os hoffech gynnwys y Comisiynydd neu ei dîm mewn digwyddiad lleol rydych yn ei drefnu, gofyn iddo gyfarfod â grŵp o'r gymuned leol neu ddweud gair mewn digwyddiad, cysylltwch â ni ar:

engagement@south-wales.police.uk



I gael rhagor o wybodaeth am eich Comisiynydd
dilynwch ni ar:



/commissionersw

www.southwalescommissioner.org.uk

Neu cysylltwch â ni drwy:



commissioner@south-wales.police.uk



01656 869 366



Gorsaf Heddlu y Bont-faen,
West Gate,
Y Bont-faen,
CF71 7AR

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg